

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL  
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 10/05/2021 am 7pm YNG  
NGHANOLFAN YR HENOED / MINUTES OF MEETING HELD ON  
10/05/2021 at 7pm AT THE PENSIONERS' HALL**

<b>1. Croeso ac ymddiheuriadau.</b>	<b>1. Welcome and apologies</b>
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr oll i'r cyfarfod a mynegodd mor braf oedd gallu unwaith eto gyfarfod wyneb yn wyneb yn hytrach na dros Zoom.	The Chairman welcomed all the Councillors to the meeting and stated how lovely it was to be able to meet face to face once again rather than via Zoom.
<b>2. Presennol:</b> Cadeirydd Mrs E Jones, Is-gadeirydd Mrs S Jones, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams, Mrs C Summers a Mr Bob Parry.	<b>2. Present:</b> Chairman Mrs E Jones, Vice-chairman Mrs S Jones, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams, Mrs C Summers and Mr Bob Parry.
<b>3. Datganiadau Diddordeb.</b>	<b>3. Declarations of Interest.</b>
Dim.	None
<b>4. Cadarnhau cofnodion 8/03/2021</b>	<b>4. Ratify minutes 8/03/2021</b>
Derbyniwyd a chadarnhawyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd dros Zoom ar yr 8 Mawrth 2021.	Minutes of the meeting held on 3 March 2021 were ratified and accepted as being correct.
<b>5. Materion yn codi:</b>	<b>5. Matters arising:</b>
<b>(i) Diweddariad gan y Cynghorydd Bob Parry</b> ar broblem Arriva oherwydd y parcio ger Canolfan yr Henoed. Argymhellodd y Cynghorydd Bob Parry bod map o'r safle fyddai angen llinellau melyn ar gael erbyn y cyfarfod nesaf.	<b>(i) Update from Councillor Bob Parry</b> regarding Arriva's problem with the parking by Pensioners' Hall. Councillor Parry recommended that a plan of where yellow lines would be needed should be to hand for the next meeting.
<b>(ii) Llwybr cyhoeddus Brynteg.</b> E-bost oddi wrth y Cyngor Sir yn cadarnhau y byddant yn cysylltu â'r tîrfeddiannwr ynglŷn â thrwsio'r giât.	<b>(ii) Brynteg public footpath.</b> Email from the County Council confirming that they will contact the landowner regarding repairing the gate.
<b>(iii) Ffynnon Ion Brynhyfryd.</b> E-bost oddi wrth y Cyngor Sir yn cadarnhau y bydd y cwyn yn cael ei basio ymlaen i'r Archwiliwr Ffyrdd lleol.	<b>(iii) Well at Brynhyfryd.</b> Email from County Council confirming that the complaint will be passed on to the local Highways Inspector.
<b>(iv) Carafán ar dir ger Pen Bonc.</b> Dim ymateb o'r Cyngor Sir hyd yma. Penderfynwyd i'r Cynghorydd Bob Parry ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir.	<b>(iv) Caravan on land opposite Pen Bonc.</b> No reply from County Council. It was decided that Councillor Bob Parry bring the matter to the attention of the County Council.
<b>6. Gohebiaeth:</b>	<b>6. Correspondence:</b>
<b>(a) Cwynion:</b>	<b>(a) Complaints:</b>

<p><b>(i) Preswylwyr Arfon House.</b> Dau fachgen yn ymddwyn yn wrth gymdeithasol ym mynwent Eglwys St Morhaearn. E-bost wedi'i anfon at Bennaeth Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn. Derbyniwyd ateb yn cynghori nad oeddynt yn gallu rheoli na dylanwadu ar ymddygiad unigolion mewn mannau cyhoeddus ond yn argymhell cysylltu â'r heddlu pan fo'r fath ymddygiad yn digwydd. Trafodwyd yr ymateb a phenderfynwyd nad oedd y Cyngor Cymuned yn fodlon ar ymateb Mr Michael, a phenderfynwyd ei wahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y mater ymhellach.</p> <p><b>(ii) Llwybr Cyhoeddus Carreg y Fran.</b> Ffens wedi'i gosod o flaen y gamfa yn y cae cyntaf, a chamfa'r ail gae wedi'i thynnu'n gyfan gwbl. Dwy ochr i'r clawdd wedi ei ffensio gyda thair weiren. Y cwyn ynghyd a darluniau o'r safleoedd wedi'i hanfon ymlaen at y Cyngor Sir. Ymateb o'r Cyngor Sir yn cadarnhau y byddant yn delio a'r mater drwy orfodaeth.</p>	<p><b>(i) Arfon House Residents.</b> Two young men behaving anti-socially in the Churchyard. Email sent to the County Council's Head of Housing. Reply received stating that they are not in a position to control or influence individuals in public places, and advising the Council to contact the Police when such behaviour was taking place. The reply was discussed and it was decided that as the Council were not satisfied with Mr Michael's reply, to invite him to the next meeting of the Council in order to further discuss the matter.</p> <p><b>(ii) Carreg y Fran footpath.</b> A fence has been erected in front of the first stile, and the stile in the second field has been completely removed. Both sides of the field bank had been fenced off with three wires. The complaint, together with photos has been sent to the County Council. Reply from the County Council confirming that they will be dealing with this matter by way of enforcement</p>
<p><b>(b) Cyngor Sir Ynys Môn.</b></p> <p><b>(i) Ymgynghoriad Cynllunio.</b> Cais Rhif HHP/2021/93 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 3-4 Llain Rhedyn; Cais Rhif HHP/2021/75 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Tyddyn Hwb. Yn dilyn trafod y ddau gais, penderfynwyd nad oedd dim sylwadau i'w cofnodi..</p> <p><b>(ii) Newyddlen Pwyllgor Safonau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.</b> Trafodwyd y newyddlen yn drwyadl, ac fe'i derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>(c) Llywodraeth Cymru.</b></p> <p><b>(i) Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.</b> Rhoi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Ar waith. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>(ii) Gweinidog Tai a Llywodraeth</b></p>	<p><b>(b) Isle of Anglesey County Council.</b></p> <p><b>(i) Planning Consultations.</b> Applic.No. HHP/2021/93 – Full application for alterations and extensions at 3-4 Llain Rhedyn; Applic.No.HHP/2021/75 – Full application for alterations and extensions at Tyddyn Hwb. Both applications discussed, it was decided that there were no comments to record.</p> <p><b>(ii) Standards Committee Newsletter for the Town and Community Councils.</b> The newsletter was discussed thoroughly and accepted for information.</p> <p><b>(c) Welsh Government.</b></p> <p><b>(i) Minister for Housing and Local Government.</b> Implementation of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021. Discussed and accepted for information.</p> <p><b>(ii) Minister for Housing and Local</b></p>

<p><b>Leol.</b> Y defnydd o bwerau gorchymyn prynu gorfodol gan awdurdodau lleol. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>(d) Un Llais Cymru.</b></p> <p><b>(i) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).</b> Cychwyn ei roi ar waith a chanllawiau ynghyd a chrynodeb o brif ddarpariaethau'r Ddeddf ar gyfer y Sector Cynghorau Cymuned a Thref. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>(ii) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.</b> Ymgynghoriad: Pwerau awdurdodau lleol i fasnachu. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>(iii) Cyfrineiriau.</b> Nodyn oddi -wrth Heddlu Dyfed Powys. Pwysigrwydd cael cyfrineiriau saff. Y Clerc wedi ei anfon i'w roi ar wefan y Cyngor Cymuned.</p> <p><b>(iv) Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru.</b> Defnyddio eich barn. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>(v) Digwyddiad ar y Cyd rhwng Un Llais Cymru / SLCC 13 Mai 2021.</b> Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>(vi) Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru.</b> Ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>(vii) Cylchlythyr Newid Hinsawdd.</b> Rhifyn Cyntaf. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>(viii) Sesiynau Hyfforddiant</b> ar gyfer mis Mai. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>7. Panel Annibynnol Cymru ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol.</b> E-bost yn</p>	<p><b>Government.</b> The use of compulsory purchase powers by local authorities. Discussed and accepted for information.</p> <p><b>(d) One Voice Wales.</b></p> <p><b>(i) Local Government and Elections (Wales) Act.</b> Commencement, implementation and guidance together with summary of key provisions of the Act for the Community and Town Council Sector. Discussed and accepted for information.</p> <p><b>(ii) Local Government and Elections (Wales) Act 2021.</b> Consultation: Local authority power to trade. Discussed and accepted for information.</p> <p><b>(iii) Passwords.</b> Notice from Dyfed Powys Police. The importance of having safe passwords. The Clerk had forwarded the notice to be uploaded onto the Council's website.</p> <p><b>(iv) Welsh Government Toolkit.</b> Use your views. Discussed and accepted for information.</p> <p><b>(v) Joint Event One Voice Wales/SLCC 13 May 2021.</b> Discussed and accepted for information.</p> <p><b>(vi) Race Equality Action Plan for Wales.</b> Research by the Wales Centre for Public Policy. Discussed and accepted for information.</p> <p><b>(vii) Climate Change Newsletter.</b> First issue. Discussed and accepted for information.</p> <p><b>(viii) Training Sessions</b> for the month of May. Discussed and accepted for information.</p> <p><b>7. Independent Remuneration Panel for Wales.</b> Email acknowledging</p>
--	---

<p>cydnabod derbyn oddi wrth y Clerc y ffurflen flynyddol orfodol ynglŷn â Lwfansau Ariannol a dalwyd i'r Cynghorwyr yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/2021.</p> <p><b>8. Mark Gahan.</b> Diweddariad ar gynllun Cymuned Gwalchmai.</p> <p><b>9. Cymorth Cynllunio Cymru/Un Llais Cymru.</b> Digwyddiad ar lein 23/6/2021 - Adfywio Trefi a Chymunedau Cymru ar ôl Covid 19. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p> <p><b>10. Chwarae Cymru.</b> Pecyn cymorth newydd – datblygu a rheoli mannau chwarae. Y Clerc wedi anfon copi ymlaen at Gadeirydd y Pwyllgor Maes Chwarae Plant.</p> <p><b>11. Cais am gyfraniad</b> oddi wrth Hosbis Dewi Sant, NSPCC a Tŷ Gobaith. Penderfynwyd anfon rhodd o £100.00 I Hosbis Dewi Sant.</p>	<p>receipt of the mandatory annual return regarding Councillors' Allowances for the financial year 2020/2021 from the Clerk.</p> <p><b>8. Mark Gahan.</b> Update on Gwalchmai Community plan.</p> <p><b>9. Planning Aid Wales/One Voice Wales.</b> Online event 23/6/2021 – Regenerating Welsh Towns and Communities post Covid 19. Discussed and accepted for information.</p> <p><b>10. Play Wales.</b> New toolkit – developing and managing play spaces. The Clerk has sent a copy to the Chairman of the Children's Playing Field Committee.</p> <p><b>11. Request for donation</b> from St David's Hospice, NSPCC and Hope House. It was decided to send a donation of £100.00 to St. David's Hospice.</p>
<p><b>12. Materion ariannol</b></p> <p><b>(a) Taliadau'n ddyledus:</b> Un Llais Cymru – Hyfforddiant - <b>£15.00</b>; Un Llais Cymru Adnewyddu Aelodaeth <b>£151.00</b>; Zurich Municipal – Adnewyddu Yswiriant <b>£531.50</b>; Eon Next – Golau Cloc 6/12/2020 – 31/3/2021 - <b>£93.99 wedi'i dalu D/D.</b> Penderfynwyd fod y Clerc I dalu'r anfonebau uchod.</p> <p><b>(b) Derbyniadau:</b> -Ad-daliad Llwybrau Cyhoeddus <b>£530.17</b>; Praecept <b>£2833.34.</b></p> <p><b>(c) Hawlio ad-daliad TAW</b> – Y Clerc wedi anfon u ffurflen yn hawlio ad-daliad o £176.00.</p> <p><b>(d) Penodi Archwilydd Mewnol.</b> Penderfynwyd penodi Mr Alun Foulkes.</p> <p><b>(e) Dyddiad Archwiliad Allanol.</b> Ffurflen flynyddol i gyrraedd yr Archwilydd Allanol erbyn 30/6/2021.</p>	<p><b>12. Financial matters</b></p> <p><b>(a) Payments due:</b> One Voice Wales – Training <b>£15.00</b>; One Voice Wales – Renewing membership <b>£151.00</b>; Zurich Municipal –Insurance Renewal <b>531.50</b>; Eon Next –Electricity for Clock 6/12/2020 – 31/3/2021 - <b>£93.99 paid by D/D.</b> It was decided that the Clerk pay the above invoices.</p> <p><b>(b) Derbyniadau:</b> - Repayment public footpath <b>£530.17</b>; Praecept <b>£2833.34.</b></p> <p><b>(c) Claim for VAT repayment</b> – Claim form sent by Clerk claiming £176.00.</p> <p><b>(d) Appoint Internal Audit.</b> It was decided to appoint Mr Alun Foulkes.</p> <p><b>(e) Date for External Audit.</b> Annual Statement to be sent by 30/6/2021.</p>

<p><b>13. Unrhyw fater arall</b> yn ôl doethineb y Cadeirydd.</p> <p>Mynegodd y Clerc ei bwriad i ymddeol y flwyddyn nesaf. Penderfynwyd rhoi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Diolchwyd i Mr Aled Jones, y cyfieithydd ar y pryd am ei wasanaeth.</p>	<p><b>13. Any other matter</b> at the Chairman's discretion.</p> <p>The Clerk gave notice of her intention to retire next year. It was decided that the matter be put on the agenda for the next Council meeting.</p> <p>Mr Aled Jones, the interpreter was thanked for his services.</p>
<p><b>14. Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.</b> Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 14 Mehefin 2021 am 7pm yng Nghanoelfan yr Henoed.</p>	<p><b>14. Fix a date for the next meeting.</b> The next meeting will be held on Monday 14 June 2021 at the Pensioners' Hall.at 7pm</p>